Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 085

**Amseru:** Pwysig

**Teitl:** Cynnig bod Goleudy'n rheoli dioddefwyr cam-drin domestig perygl canolig

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Comisiynu

**Crynodeb Gweithredol:**

Ym mis Ebrill 2017, cyflwynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'r gwasanaeth Goleudy, gyda golwg ar ddisodli'r darparwr gwasanaeth blaenorol, gan gynnig y Gwasanaeth Cyfeirio a Chymorth Dioddefwyr. Ym mis Ebrill 2018, cynyddwyd cylch gorchwyl Goleudy i gynnwys rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan ddod â'r gwasanaeth hwn yn fewnol.

Nod cyflwyno'r gwasanaethau hyn yn fewnol oedd galluogi ymagwedd di-dor o ran rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ogystal â'r cymorth a gynigir i ddioddefwyr trosedd, drwy gynnig gwasanaeth a oedd yn cynnig gwell integriad â swyddogion Heddlu Dyfed-Powys drwy gael ei gyd-leoli o fewn gorsafoedd ledled ardal gwasanaeth heddlu Dyfed-Powys.

Yn dilyn digwyddiad gwella parhaus yn 2017, a oedd yn edrych ar sut y mae cam-drin domestig yn cael ei drin o fewn Heddlu Dyfed-Powys, nodwyd bod bwlch yn y gwasanaeth mewn perthynas â'r dioddefwyr hynny a gafodd eu hasesu'n ddioddefwyr perygl canolig, nad oedd yn cael gwasanaeth uwch yn rheolaidd. Arweiniodd hyn at fesur dros dro'n cael ei weithredu a fyddai'n cynyddu gweithlu Goleudy o ddau Swyddog Cymorth Dioddefwyr a Thystion ychwanegol, a hynny ar sail dros dro am 6 mis.

Bellach, mae'r trefniant dros dro hwn wedi dod i ben, ac o'r herwydd, mae angen penderfyniad ar ddyfodol yr elfen hon o'r gwasanaeth. Yng ngoleuni hyn, cyflwynwyd achos busnes gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol yr Adran Cyfiawnder Troseddol a oedd yn rhoi manylion am nifer o ddewisiadau posibl ar gyfer y ddarpariaeth hon.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**Argymhelliad:**

Argymhellir cytuno ar gyllid ychwanegol fel y nodir yn opsiwn tri o'r achos busnes uchod. Byddai hyn yn cynnwys cynyddu gweithlu Goleudy yn barhaol o un Swyddog Cymorth Dioddefwyr a Thystion cyfwerth ag amser llawn, a chynyddu oriau swyddog arall o 11.1 awr yr wythnos. Yn ogystal, argymhellir caniatáu cyllid ar gyfer cynyddu oriau un Swyddog Gofal Tystion o 7.4 awr yr wythnos, a fydd yn golygu bod y swydd hon yn un llawn amser.

Bydd yr uchod yn sicrhau bod rheolaeth o'r gwasanaeth hwn yn gynaliadwy a sefydlog, a bydd yn cynnig gwasanaeth gofal cofleidiol i ddioddefwyr cam-drin domestig. Yn ogystal, bydd yn ymateb i gynnydd yn nifer y cyfeiriadau am gymorth ar gyfer dioddefwyr trosedd ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Cyfanswm y cyllid ychwanegol ar gyfer y dewis uchod fyddai £38,578.63 y flwyddyn, gyda blynyddoedd ychwanegol yn cynyddu i uchafswm o £41,808.33 yn seiliedig ar y cynyddiadau blynyddol o ran y raddfa gyflog ar gyfer y swyddi hyn.
Dylid nodi hefyd, yng ngoleuni'r cyllid ychwanegol uchod, y byddai hyd yn oed mwy o alw i dîm Goleudy ddarparu fframwaith rheoli perfformiad cadarn yn rheolaidd fel bod manteision y gwasanaeth wir yn medru cael eu cydnabod.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

| **Llofnod:** | *Dafydd Llywelyn* | **Dyddiad:** | 10/9/2018 |
| --- | --- | --- | --- |